



03442 640 670

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Medi 2021

Annwyl Gadeirydd,

Ynghylch: Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn eang, ac mae pob mater yn effeithio ar bobl hŷn ledled Cymru. Fodd bynnag, mae nifer o faterion yr hoffwn i'r Pwyllgor eu hystyried fel blaenoriaethau strategol dros y 6 mis nesaf ac ar gyfer blaenoriaethau tymor hwy'r Pwyllgor.

Mae'r ffaith ein bod yn byw'n hirach yn rhywbeth i'w ddathlu ond mae gan ein poblogaeth sy'n heneiddio oblygiadau ar draws y gymdeithas, gan gynnwys yn yr economi. Mae'r ddemograffeg sy'n newid, nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y byd, yn cynnig cyfleoedd enfawr. Mae pobl 65 oed a hŷn yn cyfrannu dros £2.19bn at economi Cymru bob blwyddyn, ac mae pobl dros 50 oed yn cyfrif am dros draean o'r gweithlu yng Nghymru.^{1 2} Mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr allweddol yn nhwf economaidd Cymru.

Blaenoriaethau am y 6 mis nesaf

- **Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth penodol i weithwyr hŷn**

Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at lawer iawn o ansicrwydd economaidd ac mae wedi gwaethgu'r ansicrwydd ariannol a wynebwr gan lawer o bobl hŷn yng Nghymru. Gwyddom o ddirwasgiadau blaenorol mai'r bobl iau a hŷn yn y gweithlu sy'n teimlo'r effaith ariannol fwyaf. Yn dilyn cwmp ariannol 2008, er enghraifft, mae diweithdra ymysg gweithwyr hŷn wedi dyblu bron, ac wedi disgyn yn arafach o'i gymharu â grwpiau oedran eraill.³ Mae gweithwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol o golli eu swydd, ac maent yn aml yn ei chael yn anoddach dod o hyd i waith yn dilyn hynny, yn enwedig gan nad yw'r cymorth sydd ar gael i helpu i ddod o hyd i waith yn addas yn aml i ddiwallu anghenion penodol gweithwyr hŷn.⁴

Heb y cymorth cyflogaeth briodol, mae perygl y bydd cenhedlaeth gyfan o bobl yn eu 50au a'u 60au, na fyddant byth yn dod o hyd i swydd arall cyn cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth, yn cael eu anghofio; mae hyn yn rhywbeth a fydd yn arwain at golli gwybodaeth a phrofiad yn

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sylweddol. Bydd yn hanfodol buddsoddi mewn gweithwyr hŷn a sicrhau eu bod yn gallu aros yn rhan o'r gweithlu wrth i Gymru geisio ailadeiladu ei heconomi a chynyddu ei chynhyrchiant yn dilyn y pandemig.

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen gymorth bwrpasol i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar gymorth wedi'i deilwra yn haws a chael cyfleoedd i ailhyfforddi a dysgu sgiliau newydd, naill ai wrth wynebu colli swydd neu wrth chwilio am waith. Dylai'r Pwyllgor ystyried pa mor effeithiol y mae cymorth a buddsoddiad Llywodraeth Cymru wedi bod i bobl hŷn ledled Cymru mewn ymateb i effaith y pandemig. Gallai'r math hwn o fuddsoddiad arwain at enillion sylweddol: gallai cynyddu lefel cyflogaeth ymysg pobl 50-64 oed (68.7% ar hyn o bryd yng Nghymru; y trydydd isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU) i gyfateb i gyflogaeth grwpiau oedran eraill (tua 75% ar hyn o bryd) fod yn werth bron i £4bn y flwyddyn i economi Cymru.⁵

Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor yn ystod chweched tymor y Senedd

- **Buddsoddi a chefnogaeth ar gyfer arloesi i gymdeithas sy'n heneiddio**

Mae marchnad fyd-eang yn tyfu ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw yn dda ac i aros yn annibynnol. Bydd rhai, ond nid pob un o'r rhain yn defnyddio technoleg ddatblygol newydd. Dylai'r Pwyllgor ystyried,

- Sut gall Cymru arwain y ffordd gyda hyn? Sut mae modd annog a chefnogi busnesau i ddatblygu ac i fuddsoddi yn y maes yma?
- Mae'r bobl sy'n hŷn na 50 oed yn farchnad defnyddwyr bwysig ond nid oes llawer o gwmnïau yn targedu neu yn marchnata i'r grŵp yma. Sut gellir newid hyn?

Gallai tyfu a chefnogi cwmnïau yng Nghymru i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau wedi'i gwneud yng Nghymru i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a rhoi mwy o gydnabyddiaeth i anghenion ein cymdeithas sy'n heneiddio, yng Nghymru ac ar draws y byd, roi Cymru fel arweinydd byd-eang o ran arloesi cynnyrch a gwasanaethau newydd ar gyfer heneiddio'n dda.

- **Astudiaeth hydredol ar heneiddio yng Nghymru**

Er mwyn cefnogi a llywio buddsoddiad mewn arloesedd ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio a amlinellir uchod, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried, drwy weithio ar y cyd â Phwyllgorau eraill y Senedd, yr angen am astudiaeth hydredol o heneiddio yng Nghymru. Gallai astudiaeth ddod â manteision enfawr o ran darparu data a gwybodaeth amhrisiadwy ar gyfer ymchwil a datblygu ar draws ystod eang o feysydd.

ae 'Decade of Healthy Ageing' y Cenhedloedd Unedig, a lansiwyd yn 2021 yn gydweithrediad byd-eang, sy'n cyd-fynd â'r deng mlynedd diwethaf o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae'n dod â llywodraethau, cymdeithas sifil, asiantaethau rhyngwladol, gweithwyr proffesiynol, y byd academiaidd, y cyfryngau a'r sector preifat at ei gilydd i wella bywydau pobl hŷn, eu teuluoedd a'r cymunedau lle maent yn byw. Mae poblogaeth ledled y byd yn heneiddio'n gyflymach nag yn y gorffennol a bydd y ddemograffeg hon sy'n newid yn effeithio ar bron pob agwedd ar gymdeithas. Un o'r meysydd cydweithredol a nodwyd gan y Cenhedloedd Unedig, i gefnogi'r degawd o heneiddio'n iach, yw'r angen i gryfhau ymchwil, data ac arloesi. Yng Nghymru, er enghraifft, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r her o heneiddio'n iach gydag arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau a mabwysiadu technoleg. Credaf y gallai astudiaeth hydredol gefnogi'r math hwn o arloesi ymhellach a helpu i roi Cymru ar flaen y gad yn y gwaith rhyngwladol hwn.

Mae gan Loegr⁶ a'r Alban⁷ astudiaethau hydredol ar heneiddio, sy'n eu helpu i ddeall pob agwedd ar heneiddio. Mae'r astudiaethau'n darparu gwybodaeth amhrisiadwy o ran gwybodaeth sy'n gallu llywio'r gwaith o ddylunio a buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio a dod â buddion amhrisiadwy i economi a chymdeithas Cymru.

- **Ymrwymiad hirdymor i gefnogi dysgwyr a gweithwyr hŷn**

Mae oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn rhywbeth sy'n digwydd rhy aml yn ein gweithleoedd. Hoffwn weld mwy o ymroddiad i roi diwedd ar wahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle yn ogystal â rhaglen waith i helpu cyflogwyr i fabwysiadu polisïau gweithio hyblyg ac sydd o blaid gofawr er mwyn cefnogi gweithwyr hŷn

Mae llawer o bobl hŷn yn cysylltu â mi ynghylch mynediad at ddysgu a'r rhwystrau maent yn eu hwynebu o ganlyniad i ragfarn ar sail oedran. Hoffwn weld yr hawl i ddysgu gydol oes yng Nghymru, er mwyn galluogi pobl o bob oed i fanteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Rwy'n gobeithio y bydd y materion a amlinellir yn y papur yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor ar y materion hyn dros y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

¹ Edwards, R. T et al. (2018). Living well for longer: The economic argument for investing in the health and wellbeing of older people in Wales. Cyrchwyd ar 4 Awst 2020. Ar gael yn: <https://cheme.bangor.ac.uk/documents/livingwell2018.pdf>

² Llywodraeth Cymru. (2020). Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchoddedig. Cyrchwyd ar 4 Awst 2020. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/coronafeirws-a-chyflogaeth-dadansoddiad-ar-nodweddion-gwarchoddedig>

³ Wilson, T et al. (2020). Getting back to work: Dealing with the labour market impacts of the Covid-19 recession. Institute for Employment Studies. Cyrchwyd ar 4 Awst 2020. Ar gael yn: <https://www.employment-studies.co.uk/system/files/resources/files/541.1.pdf>

⁴ ibid

⁵ Edwards, R. T et al. (2018) Living well for longer: The economic argument for investing in the health and wellbeing of older people in Wales. Cyrchwyd ar 4 Awst 2020. Ar gael yn: <https://cheme.bangor.ac.uk/documents/livingwell2018.pdf>

⁶ The English Longitudinal Study of Ageing <https://www.elsa-project.ac.uk/>

⁷ Healthy Ageing in Scotland (HAGIS) <https://www.hagis.scot/>